OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2171 (Cy.218)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002

Wedi'u gwneud am 11:45 a.m.
ar - - - - - - 22 Gorffennaf 2002
Yn dod i rym am 12.00 canol
dydd ar - - - - 22 Gorffennaf 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adrannau 79C, 79E a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym am 12.00 canol dydd ar 22 Gorffennaf 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygiadau

2.—(1) At ddibenion y Rheoliad hwn ystyr "cynllun chwarae haf" yw darpariaeth gofal dydd sy'n cynnwys plant o dan wyth oed am fwy na dwy awr y dydd, a honno'n ddarpariaeth sy'n gweithredu'n unig am y cyfan neu ran o'r cyfnod rhwng dyddiad dod i rym Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002 a 13 Medi 2002.

(2) Diwygir rheoliad 4 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002(**2**) fel a ganlyn

(a) yn is-baragraff (c)(i) o baragraff (3) mewnosodir ar ôl "paragraff (4)" y geiriau "neu (4A)";

(b) yn dilyn is-baragraff (c) (ii) o baragraff (3) mewnosodir

"(iii) os yw paragraff (4A) yn gymwys,

(A) mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1, 4, 6 a 7 o Atodlen 2;

(**1**) 1989 p.41; mewnosodwyd adrannau 79C a 79E gan adran 79 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14). Mae'r pwerau'n arferadwy gan y Gweinidog priodol, a ddiffinnir yn Adran 121(1) o'r Ddeddf Safonau Gofal, mewn perthynas â Chymru, fel y Cynulliad Cenedlaethol. *Gweler* adran 121(1) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) O.S. 2002/812.

(B) o leiaf un geirda ysgrifenedig neu eirda dros y ffôn;

(C) tystysgrif cofnod troseddol a roddwyd o'r blaen o dan adran 113 o Ddeddf yr Heddlu 1997(**3**); ac

(CH) canlyniad ysgrifenedig gwiriad a wnaed o'r rhestrau sy'n cael eu cadw yn unol ag adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(**4**) a Rheoliadau a wnaed o dan adran 218 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**5**).”

(c) Ar ôl paragraff (4) mewnosodir—

“(4A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os oes cais wedi'i wneud am y dystysgrif neu am wybodaeth am unrhyw fater a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ond nad yw ar gael eto i unigolyn sy'n dymuno darparu cynllun chwarae haf.”

(3) Diwygir rheoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 fel a ganlyn—

(a) Ym mharagraff (5) mewnosodir ar y dechrau

“Yn ddarostyngedig i baragraff (7),”

(b) Ar ôl paragraff (6) mewnosodir—

(7) Pan fydd yr amodau canlynol yn gymwys, gall y person cofrestredig ganiatáu i berson ddechrau gweithio yn y safle perthnasol er gwaethaf paragraff (4)(b)—

(a) bod y person yn dymuno gweithio mewn cynllun chwarae haf;

(b) bod y person cofrestredig wedi cymryd pob cam rhesymol i gael gwybodaeth lawn mewn perthynas â phob un o'r materion a restrir yn Atodlen 2 mewn perthynas â'r person hwnnw;

(c) bod gwybodaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â'r person hwnnw wedi'i sicrhau ynghylch y materion a bennir ym mharagraffau 1, 4 a 6 o Atodlen 2;

(ch) o leiaf un geirda ysgrifenedig neu eirda dros y ffôn;

(d) bod y person wedi darparu

(i) datganiad ysgrifenedig nad yw'r person wedi'i gollfarnu na'i rybuddio am unrhyw dramgwydd troseddol, neu

(ii) manylion ysgrifenedig unrhyw dramgwyddau troseddol y mae'r person wedi'i gollfarnu ohonynt, gan gynnwys manylion unrhyw gollfarnau sydd wedi darfod o fewn ystyr “spent” yn adran 1 o Ddeddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974(**6**) ac y caniateir eu datgelu yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 neu y mae'r person wedi'i rybuddio amdanynt gan swyddog heddlu ac wedi'u cyfaddef adeg cael y rhybudd; a

(dd) bod y person cofrestredig, wrth ddisgwyl am unrhyw wybodaeth sydd heb ddod i law, a chyn iddo fodloni'i hun mewn perthynas â'r wybodaeth honno, yn sicrhau bod y person yn cael ei oruchwylio'n briodol wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau.

(4) Diwygir Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(**7**) fel a ganlyn—

(a) Yn Atodlen 8, yn dilyn paragraff 9 mewnosodir—

“(9A) Notwithstanding paragraph 4 where the applicant intends to provide a summer playscheme,—

(**3**) 1997 p.50.
(**4**) 1999 p.14.
(**5**) 1988 p.40.
(**6**) 1974 p.53.
(**7**) O.S. 2002/919.